# Newyddion Archif 4



## Newyddion Diweddaraf: 4

### Disgyblion Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais, enillwyr gwobr yr Arglwydd Brooke o Alverthorpe, yn ymweld â Thŷ'r Cyffredin



Cyrhaeddodd fy nghyffro disgwylgar am y daith i Dŷ'r Arglwyddi ei uchafbwynt ar y siwrnai drên hir i Paddington, Llundain. Enillwyd y daith unwaith mewn bywyd hon gan Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig, gan ein Clwb Hanes haf diwethaf, am ein hymchwil manwl i effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar ein cymuned leol. Uchafbwynt y gwaith oedd drama yn ailadrodd hanesion milwyr lleol a gollwyd a'u teuluoedd, yn eu geiriau eu hunain. Ar y trên manteisiais ar y cyfle i ymchwilio hanes yr Arglwydd Brooke o Alverthorpe, a fyddai'n rhoi taith bersonol i ni o gwmpas y Senedd, er mwyn deall mwy am ei gyfraniad gwleidyddol sylweddol. Darganfûm fod yr Arglwydd Brooke yn dod o gefndir Llafur a'i fod wedi gweithio ar faterion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd, pwnc sydd yn fy niddori yn fawr, oherwydd canlyniadau diweddar y Refferendwm a'm bwriad i astudio'r Gyfraith.

Roedd camu i'r Senedd fel camu'n ôl mewn amser. Cyflwynodd y bensaernïaeth othig drawiadol fi i fyd diamser traddodiadau a gwleidyddiaeth Prydain, lle nad oedd fawr arwydd o dechnoleg fodern. Uchafbwynt fy nydd oedd cael y profiad anhygoel o eistedd yn siambrau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi i wrando ar ddadleuon gwleidyddol bywiog ar faterion cyfoes. Yn Nhŷ'r Cyffredin, roedd hi'n ddiddorol gweld y cynrychiolwyr gwleidyddol gwahanol yn eistedd ar y seddau gwyrdd eiconig a welswn ar y teledu. Fodd bynnag, cefais fy hudo'n llwyr pan gamais i siambr glasurol wych Tŷ'r Arglwyddi. Roedd hi'n rhyfeddol i gael bod yn dyst i ymateb yr arglwyddi a'r arglwyddesau ar y cyd, yn murmur eu barn pan safai unigolynar ei draed yng nghanol y môr o goch i fynegi ei safbwynt ar bwnc cyfredol cyfoes sy'n effeithio ar Brydain, megis canlyniadau ethol Donald Trump yn Arlywydd UDA. Roedd fy nhaith i'r Senedd, sefydliad hanesyddol wrth galon democratiaeth Prydain, yn sicr yn brofiad bythgofiadwy a erys yn fy nghof am amser hir iawn. Elin Anthony

Aethon ni i Dŷ'r Arglwyddi ar 16eg o Dachwedd. Ar ôl siwrnai drên dair awr hir cyrhaeddon ni Dŷ'r Arglwyddi a chawsom ein croesawu gan yr Arglwydd Brooke. Cawsom daith o gwmpas y Senedd a chyfle i weld y digwyddiadau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Roedd e'n brofiad gwych gallu gweld y darluniau, y cerfluniau a'r cofebion rhyfeddol ac ni fydd yn un ohonom yn eu hanghofio. Cawsom baned gyda'r Arglwydd Brooke a chyfle i sgwrsio gydag e – roedd hyn yn ddiddorol ac yn ysgogol. Ar y cyfan bu'n ddiwrnod gwych ac roedd yn anrhydedd gallu blasu'r profiad hwn o'r system wleidyddol Brydeinig. Rhys Jones

Dechreuodd y diwrnod gyda thaith drên i Baddington, Llundain o Gastell Nedd. Roeddem wedi cyffroi ac yn edrych ymlaen at ein diwrnod yn Nhŷ'r Arglwyddi. Daeth Jeanne, yn garedig, i'n cyfarfod a theithion ni mewn tacsi i fynedfa'r arglwyddi. Ar ôl cwrdd â'r Arglwydd Brooke, aethom o gwmpas y Senedd a gweld pensaernïaeth drawiadol iawn. Roedd hyn yn cynnwys eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Buom yn ddigon ffodus i gael sgwrsio gyda'r Arglwydd Brooke dros baned yn yr ystafell de, ac yna allan ar y teras, lle gwelsom oleuadau disglair Llundain yn yr hwyrnos. Cawsom brofiad llawn boddhad a gwybodaeth y bydd pob un ohonom yn ei gofio am flynyddoedd i ddod. Nia McLennan

---

### Eurostory Prize Winner 2016



Alana,Ysgol y Preseli, gyda'r cynrychiolwyr eraill yn Georgia

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae clwb hanes Ysgol y Preseli wedi bod yn cystadlu yng nghystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Yng Ngorffennaf 2016 enillon ni wobr Eustory am ein gwaith ar ymfudo o Gymru i'r Unol Daleithiau. O ganlyniad, mynychodd Alana Jones glwb hanes yn Tblisi, Georgia ac Elin Rees gynhadledd debyg yn Bwdapest, Prâg a Gdansk.

Mynychodd enillwyr cystadlaethau eraill yn Ewrop y gwersylloedd hyn yn ogystal. Nod Eustory yw dwyn haneswyr ifainc o ledled Ewrop ynghyd i hyrwyddo arwyddocâd hanes ar gyfer dyfodol Ewropeaidd cyffredin trwy gynadleddau a gweithdai rhyngwladol.

Ymwelodd Elin â dinasoedd a fu'n rhan annatod o'r Llen Haearn i ganolbwyntio ar sut mae Ewrop Gomiwnyddol wedi ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Gydol y daith, cafodd Elin gyfle i weithio gyda myfyrwyr o bob rhan o Ewrop i ddysgu am newyddiaduraeth a'i swyddogaeth mewn cymdeithas.

Ymwelodd Alana â Tblisi i drafod p'run a oedd Ewrop yn unedig neu'n rhanedig. Bu cyfranogwyr o ledled Ewrop yn cynnig eu safbwyntiau ar byncIau megis cenedlaetholdeb a hunaniaeth a sut mae gwleidyddiaeth ryngwladol yn effeithio ar y rhain.

Cafodd y ddwy fyfyrwraig brofiadau gwych a fydd yn aros yn y cof am byth. Hoffem ddiolch i Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ac Eustory am y profiadau hyn.

---

### Newyddion da! Mae gennym noddwr newydd ar gyfer 2017

caa
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

---

### Seremoni Wobrwyo 2016




YSGOL MAESYDDERWEN, YSTRADGYNLAIS

Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo 2016 yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, lleoliad addas a llawn awyrgylch ar gyfer y digwyddiad. Croesawodd Steph Mastoris, Pennaeth yr Amgueddfa yr ysgolion a'r noddwyr a darparwyd adloniant cerddorol ardderchog gan ensemble telyn a chôr Ysgol Gyfun Gymraeg Bryntawe. Eleni, penderfynwyd arbrofi gyda fformat newydd a chanolbwyntio mwy ar y disgyblion oedd yn bresennol. Felly daeth yr Arglwydd Rhys ap Gruffydd (sylfaenydd ein traddodiad eisteddfodol yng Nghymru) o gwmni theatr 'Mewn Cymeriad' atom i ddweud ychydig eiriau ac i gyflwyno'r gwobrau i'r disgyblion cynradd.

Cyflwynwyd y gwobrau gan aelodau pwyllgor MYDG:

- Y Cyfnod Sylfaen a'r Ysgolion Arbennig: Geraint Bevan
- Ysgolion Cynradd: Nia Williams a Dr Stuart Broomfield
- Ysgolion Uwchradd: Dr Elin Jones a roddodd araith fer hefyd fel Llywydd Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau, 2016.
- Cyflwynodd Alun Morgan, Is-Gadeirydd MYDG Wobr Eustory a daeth ef â'r cyfarfod i ben

---

### Newyddion - Archif

Newyddion Archif 6
Newyddion Archif 5
Newyddion Archif 4
Newyddion Archif 3
Newyddion Archif 2
Newyddion Archif 1

### Enillwyr tarian Amgueddfa Cymru am y cais gorau ym mhob categori ac enillydd gwobr Eustory

Gwbor Sefydliad Hodge £700
Gwobr Cyngor Llyfrau Cymru: tocyn llyfr £100
YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL MAERDY



---

Gwbor Sefydliad Hodge £750
YSGOL ARBENNIG PORTFIELD



---

Moondance Foundation Prize £750
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales Prize Book and CD of photographs of local area
GLYNHAFOD JUNIOR SCHOOL




---

Gwobr Sefydliad Moondance £750
Gwobr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Llyfr a CD o ffotograffau o'r ardal leol
YSGOL MAESYDDERWEN



---

Gwobr Eustory:
YSGOL Y PRESELI



This year students from the winning school will attend a European Academy in either Tbilisi in Georgia or a combination of Gdansk in Poland, Prague in the Czech Republic and Budapest in Hungary.

© WHSI. 2020. The Welsh Heritage Schools Initiative is an independent registered charity (No. 1048155). Its Trustees are: Catrin Stevens, Dr Stuart Broomfield, Alun Morgan.
Privacy Policy